**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref JJ/02989/20
Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau,
Senedd Cymru

deisebau@senedd.cymru

27 Tachwedd 2020

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 18 Tachwedd ynglŷn â deiseb P-05-1077 Peidiwch â newid ffin bleidleisio de Ystrad Mynach.

Mae'r ddeiseb yn ymwneud ag argymhelliad a gynhwysir yn Adroddiad Terfynol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) i'r Adolygiad o Drefniadau Etholiadol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Gallai fod o gymorth imi nodi'r broses a'r amserlen ar gyfer y rhaglen bresennol o adolygiadau fel cefndir.

Sefydlwyd y Comisiwn yn 1974 o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Cafodd ei ailenwi'n Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn 2013 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Deddf 2013). Mae'n gyfrifol, ymhlith pethau eraill, am adolygu'r trefniadau etholiadol ar gyfer ardaloedd y prif gynghorau yng Nghymru yn rheolaidd a gwneud cynigion i Lywodraeth Cymru ynghylch newidiadau angenrheidiol er lles llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Mae hyn yn cynnwys newidiadau i ffiniau etholiadol, cymarebau cynghorwyr i etholwyr neu newidiadau i wardiau etholiadol.

Ym mis Mehefin 2016 penderfynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar y pryd y dylai adolygiadau pob un o'r 22 o ffiniau etholiadol gael eu cynnal yn nhymor presennol Llywodraeth Leol hy cyn yr etholiadau nesaf ym mis Mai 2022 ac mewn digon o bryd i newidiadau i'r ffiniau etholiadol gael eu cymryd i ystyriaeth a'u hadlewyrchu mewn Gorchmynion. Er mwyn i'r adolygiadau fod yn eu lle ar gyfer etholiadau'r prif gynghorau ym mis Mai 2022 roedd angen iddynt gael eu cwblhau ac i'r Gorchmynion fod mewn grym erbyn diwedd Medi 2021 i roi digon o amser i'r awdurdodau lleol roi unrhyw newidiadau ar waith. Mae'r rhaglen hon o adolygiadau'n mynd rhagddi ar hyn o bryd.

Mae Deddf 2013 yn nodi proses statudol fanwl ar gyfer cynnal adolygiad. Mae hyn yn cynnwys proses ymgysylltu gychwynnol a rhanddeiliaid allweddol i lywio adroddiad drafft sy'n destun ymgynghoriad gan y Comisiwn ag ymgyngoreion gorfodol ac eraill i lywio adroddiad terfynol y mae'r Comisiwn yn ei gyflwyno i Weinidogion Cymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r adroddiad terfynol wedyn yn destun cyfnod o chwe wythnos i alluogi unigolion / sefydliadau gyflwyno sylwadau a phryderon am yr argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiad terfynol.  Yn dilyn y cyfnod hwn ac ar ôl  ystyried y sylwadau sydd wedi dod i law mae Gweinidogion Cymru'n gallu rhoi unrhyw argymhelliad ar waith (gydag addasiad neu heb addasiad) neu benderfynu peidio â gweithredu.

Mae'n bwysig bod pob adolygiad yn dilyn y broses statudol a bod uniondeb y broses yn cael ei gadw.  Rwyf yn cael gohebiaeth yn rheolaidd mewn cysylltiad â'r adolygiadau sy'n cael eu cynnal ac er nad oes modd eu hateb i gyd yn fanwl, mae'r pwyntiau a godir yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau am bob un o'r argymhellion ym mhob un o'r adroddiadau.

Er fy mod yn deall pam y byddai unigolion yn ceisio mynd ar drywydd deisebau yn yr amgylchiadau hyn, rwyf yn pryderu y gallai hyn ddod yn ffordd arferol o gyflwyno sylwadau sy'n digwydd ochr yn ochr â'r broses gyfreithiol sefydledig.

Gan fod adroddiad Caerffili yn mynd trwy'r broses statudol ar hyn o bryd rwyf yn siŵr y byddwch yn deall na allaf roi gwybodaeth bellach ichi am y mater.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government